# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 11/01/2011

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Blaenoriaethau

***11. Jonathan Morgan :*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y pedwar mis nesaf. OAQ(3)3319(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones) :** Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y pedwar mis nesaf yw gweithredu gweddill rhaglen 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, gan ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi adferiad economaidd cynaliadwy.

### Ardrethi Busnes

***12. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr o 'Sector Porthladdoedd Annibynnol Cymru' ynghylch cynnal cydraddoldeb gyda phorthladdoedd Lloegr o ran codi ardrethi busnes. OAQ(3)3310(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr busnesau sy'n defnyddio porthladdoedd Cymru, ac mae'n ymwybodol o'u barn ar y mater hwn.

### Blaenoriaethau

***13. Helen Mary Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y misoedd nesaf. OAQ(3)3316(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i weithredu amcanion 'Cymru'n Un', gan ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau adferiad economaidd cynaliadwy.

### Gwasanaethau Trên

***14. Paul Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau trên yng Ngorllewin Cymru. OAQ(3)3311(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau trên yn y gorllewin i'w cael yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Yr ydym wedi ymrwymo i sefydlu rheilffordd ddwbl rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr, er mwyn cael gwared ar fan cyfyng pwysig ac i hwyluso gwelliannau yn y dyfodol o ran amlder y gwasanaethau yn y gorllewin.

### Blaenoriaethau

**15. Nick Ramsay:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer 2011. OAQ(3)3307(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae fy mlaenoriaethau hyd at ddiwedd y Cynulliad hwn yn parhau fel y nodwyd yn 'Cymru'n Un'. Maent yn cynnwys cynnal refferendwm ar bwerau deddfu, diogelu gwasanaethau cyhoeddus, sicrhau adferiad economaidd cynaliadwy a chwblhau ein rhaglen ddeddfwriaethol.